

**Sicrhau mynediad i'r
cwriclewm llawn**

**Dadansoddiad o'r
ymgyngoriad**

Adroddiad Plant a Phobl Ifanc

Ionawr 2020





Cynnwys

1	Cyflwyniad i'r ymgynghoriad	4
2	Ynglŷn â Dynamix	5
3	Crynodeb	6
	3.1 Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb	6
	3.2 Addysg Grefyddol	7
	3.3 Ydych chi'n meddwl y dylai'r rheol hon fod yn berthnasol i rieni plant blwyddyn 8 a hŷn o fis Medi 2022 yn ogystal â rhieni plant blwyddyn 7?	9
	3.4 Yr effaith ar y Gymraeg	9
4	Methodoleg	10
	4.1 Grwpiau ffocws	10
	4.2 Holiadur Ar-lein	10
5	Cyfranogwyr	12
6	Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh	15
	6.1 Beth yw'r tri pheth cyntaf sy'n dod i'ch meddwl wrth glywed 'ACRh'?	15
	6.2 Enwch dri pheth rydych chi wedi eu dysgu mewn gwersi ACRh?	18
	6.3 Pa effaith fyddai ar ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd	19
	i.) Dysgwyr	19
	ii.) Rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr	21
	iii.) Ysgolion	23
	6.4 Pa wybodaeth, help a chefnogaeth fyddai eu hangen er mwyn gwneud i'r rheolau newydd hyn weithio?	26
7	Dadansoddiad o'r canlyniadau: AG	29
	7.1 Beth yw'r tri pheth cyntaf sy'n dod i'ch meddwl wrth glywed 'AG'?	29
	7.2 Enwch dri pheth rydych chi wedi eu dysgu mewn gwersi AG?	30
	7.3 Pa effaith fyddai ar ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Grefyddol (AG) yn y cwricwlwm newydd?	32
	i.) Dysgwyr	32
	ii.) Rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr	35
	iii.) Ysgolion	37
	7.4 Pa wybodaeth, help a chefnogaeth fyddai eu hangen er mwyn gwneud i'r rheolau newydd hyn weithio?	39
	7.5 Beth sy'n enw da ar gyfer "Addysg Grefyddol", er mwyn dangos y newidiadau yn y ffordd newydd o addysgu (Cwricwlwm)?	42
8	Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oeddrannau a'r Gymraeg	45
	8.1 A ydych chi'n meddwl y dylai'r rheol hon fod yn berthnasol i rieni plant blwyddyn 8 a hŷn o fis Medi 2022 yn ogystal â rhieni plant blwyddyn 7?	45
	8.2 A fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	48
	8.3 A fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar drin y Gymraeg yn gydradd i'r Saesneg?	50
	8.4 A oes unrhyw newidiadau y gallwn ni eu gwneud i'r cynllun er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	52
	8.5 A oes unrhyw newidiadau y gallwn ni eu gwneud i'r cynllun er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un peth â'r Saesneg?	53
9	A oes gennych chi unrhyw syniadau neu gwestiynau eraill am ACRh ac AG yr hoffech eu hychwanegu?	54

1

Cyflwyniad i'r ymgynghoriad

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Dynamix ddarparu dulliau hygyrch er mwyn i leisiau plant a phobl ifanc gael eu cynnwys yng ngham adborth y cwricwlwm newydd. Er mwyn cael cyfradd ymateb eang defnyddiwyd dau ddull adborth;

Datblygwyd holiadur ar-lein er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i ymateb yn eu hamser eu hunain.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws ledled Cymru gyda 20 grŵp gan gynnwys grwpiau Cynradd, Uwchradd a Nodweddion Gwarchodedig.

Gweithiodd Dynamix gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn hygyrch i blant a phobl ifanc a bod y dulliau o gasglu adborth yn unol â safonau cyfranogi.

2 Ynglŷn â Dynamix

Menter gymdeithasol sy'n darparu addysg ac sy'n arbenigo mewn rhoi llais i bobl gan ddefnyddio gweithgareddau cyfranogol i ymgysylltu'n gynhwysol yw Dynamix.

Mae Dynamix yn defnyddio gweithgareddau ymgynghorol, cyfranogol i sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu barn. Defnyddir amrywiaeth o dechnegau sy'n gweddu i hoff ffyrdd pobl o fynegi barn, boed hynny'n gorfforol, yn weledol, ar lafar, neu'n ysgrifenedig. O ganlyniad mae cyfranogwyr yn teimlo'n ddigon cyfforddus a hyderus i gyfranogi'n llawn yn y profiad gan ddefnyddio ymgynghoriad wedi ei hwyluso, maen nhw'n teimlo'n rhan o'r broses ac yn gwybod bod eu syniadau a'u barn yn cyfrif ac yn cael eu cyfrif.

Ategir methodolegau Dynamix gan ein gwerthoedd ymgysylltu drwy gyfranogiad a mwynhad, parch, cynhwysiant, cydweithrediad a grymuso. Mae Dynamix hefyd yn credu'n gryf yn y 12 Egwyddor Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd¹ a'r 7 Safon Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc².

¹ <https://participation.cymru/cy/egwyddorion/>

² <http://www.plantynghymru.org.uk/ein-gwaith/cyfranogiad/safonau-cyfranogiad/>

3 Crynodeb

Cynhaliodd Dynamix 20 grŵp ffocws gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru o 8 – 28 Tachwedd 2019 mewn deg ysgol gynradd, wyth ysgol uwchradd a gyda dau grŵp â nodweddion gwarchodedig.

Rhoddodd cyfanswm o 279 cyfranogwr adborth drwy'r grwpiau ffocws a'r holiadur ar-lein.

3.1 Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae dadansoddiad o'r ymatebion a roddwyd gan gyfranogwyr yr ymgynghoriad yn dangos bod ACRh yn bwnc anodd i ddysgwyr siarad amdano, ac mae'n gwneud i nifer o ddysgwyr deimlo embaras neu'n anghyfforddus. Fodd bynnag, roedden nhw hefyd yn meddwl bod y pwnc hwn yn ymwneud â gwneud ffrindiau a datblygu cydberthnasoedd iach. Y prif beth mae dysgwyr yn ei gael o wersi ACRh yw dysgu am eu cyrff eu hunain, sut maen nhw'n ymwneud ag eraill, bod yn ddiogel a bwlio.

Teimlid y gallai'r newidiadau effeithio'n bositif ac yn negyddol ar rieni/gwarcheidwaid/gofalwyr ac ysgolion. Thema gyson y trafodaethau hyn oedd y gallai'r newidiadau hyn arwain at ddysgwyr ac amgylchedd ysgol mwy gwybodus a goddefgar, a allai effeithio'n bositif ar rieni drwy sicrhau bod hyn yn cael ei drafod mewn ysgolion a allai leihau'r pwysau ar rieni i'w drafod gartref. Teimlid y byddai dysgu cyson i bawb yn y maes hwn yn arwain at ddysgwyr yn bod yn fwy gwybodus wrth iddyn nhw ddod yn oedolion ac y byddai'n helpu creu gwell dealltwriaeth a goddefgarwch.

Mae dadansoddiad o'r canlyniadau'n dangos mai ar y rhieni y gallai'r effaith fwyaf negyddol fod, gan y byddai'n cael gwared â'u dewis ynghylch sut y byddai eu plant yn dysgu am ACRh. Roedd pobl o gymunedau Sipsiwn, Teithwyr neu Romani yn teimlo y byddai gwneud hyn yn orfodol yn cael effaith enfawr ar ddysgwyr gan y gallen nhw gael eu tynnu allan o addysg gan eu rhieni. Roedd plant a phobl ifanc yn y gymuned hon yn teimlo embaras mawr ynghylch y pwnc hwn ac yn gryf yn erbyn dysgu am y maes hwn. Rhennid y teimlad o embaras a theimlo'n anghyfforddus am y maes dysgu hwn ar hyd a lled pob grŵp. Teimlid hefyd y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio'n negyddol ar ysgolion oherwydd byddai'n rhaid iddyn nhw ddelio â chwynion gan rieni a byddai angen hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y gwersi'n wybodus ac yn addas i'r oedran. Teimlai'r cyfranogwyr y gallai gwneud y dysgu hwn yn orfodol arwain at ymddygiad gwaeth ymysg disgyblion a mwy o fwlio a fyddai'n cael effaith ar ysgolion, gan y bydd yn rhaid iddyn nhw ddelio â'r ymddygiad hwn gan ddisgyblion.

Er mwyn helpu gyda'r newidiadau hyn, awgrymwyd bod angen i rieni gael gwybod beth sy'n digwydd. Mae angen cyfathrebu hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys

3 Crynodeb

e-bost, negeseuon testun, cylchlythyrau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Dylai gwybodaeth ynghylch beth sy'n cael ei ddysgu a phryd yn ACRh gael ei darparu.

Byddai angen yr hyfforddiant cywir ar athrawon a dylid teilwra gwersi er mwyn cwrdd â gwahanol anghenion a galluoedd. Bydd cynnwys dysgwyr a rhieni mewn trafodaethau hefyd yn helpu'r pontio.

Argymhellion

- » Canolbwyntio ar gydberthnasoedd iach a deall eraill – gallai tynnu'r term 'Rhywioldeb' o enw'r maes pwnc hwn gael gwared â rhywfaint o'r pryderon a'r embaras a deimlir gan ddysgwyr.
- » Darparu gwybodaeth fanwl ar gynnwys y dysgu yn y maes hwn a sut y'i dysgir mewn ysgolion.
- » Cynnwys dysgwyr mewn trafodaethau am gynnwys y dysgu fel eu bod nhw'n deall beth gaiff ei ddysgu a bod teimladau o embaras yn cael eu trin yn sensitif.
- » Polisi drws agored er mwyn i rieni ddod i siarad ag athrawon, dod i ddosbarthiadau, mynychu gweithdai/trafodaethau er mwyn lliniaru eu pryderon.
- » Sicrhau bod cyfathrebu clir gyda rhieni drwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys e-bost, gwefannau, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a phosteri. Mae'n bwysig bod y cyfathrebu hwn yn cael ei gyflwyno'n eglur mewn ffordd sy'n cael ei deall gan bob oed a gallu.

3.2 Addysg Grefyddol

Roedd sgysiaid gyda dysgwyr am AG yn fwy syml nag ACRh. Roedd gan ddysgwyr ddealltwriaeth glir o beth oedd AG a beth maen nhw'n ei ddysgu yn y maes hwn ar hyn o bryd. Roedd yn glir o'r ymatebion a roddwyd bod dysgwyr yn ystyried bod AG yn cynnwys dysgu am bob crefydd gyda ffocws cryf ar Gristnogaeth. Roedd AG hefyd yn cynnwys dysgu am bobl, hanes ac arferion. Teimlid fod dysgu am grefyddau a phobl yn helpu lleihau hiliaeth a bwlio. Roedd dwy farn ymysg y dysgwyr – gyda hanner â diddordeb yn y maes dysgu hwn a hanner heb ddiddordeb. Ystyrid y gwrthwynebiadau gan ddysgwyr i ddysgu am y maes hwn fel effaith fwyaf negyddol gwneud AG yn orfodol. Teimlid hefyd y dylai dysgwyr gael dewis mynychu'r gwersi hyn ai peidio. Fodd bynnag, roedd yn glir o'r grwpiau ffocws y byddai astudio AG yn gwneud dysgwyr yn fwy gwybodus a goddefgar. Byddai hyn hefyd yn cael effaith positif ar rieni gan y bydden nhw'n hapus bod eu plant yn dysgu am grefyddau eraill ac y bydden nhw'n dysgu am barch. Teimlid y gallai awyrgylch ysgolion wella oherwydd bod dysgwyr yn fwy gwybodus ac felly'n fwy goddefgar ac o ganlyniad y gallai bod llai o fwlio. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r canlyniadau'n dangos bod dysgwyr yn teimlo y byddai hyn yn

3 Crynodeb

cael effaith negyddol ar rieni/gwarcheidwaid/gofalwyr sydd â chred grefyddol ac na fyddai eisiau i'w plant ddysgu am grefyddau eraill yn yr ysgol. Gallai'r newidiadau hyn gael effaith negyddol ar ysgolion gan y byddai'n costio arian i'w rhoi ar waith a byddai angen hyfforddiant ychwanegol ar athrawon. Teimlid y gallai effaith gwrthwynebiadau dysgwyr a rhieni bod y gwersi hyn yn orfodol effeithio ar ysgolion gan y byddai'n rhaid iddyn nhw ddelio ag ymddygiad aflonyddgar mewn dosbarthiadau a chwynion gan rieni. Awgrymwyd y dylid gwahodd pobl â chredoau crefyddol a diwylliannau gwahanol a phobl o wledydd y tu allan i'r DU i siarad â dysgwyr fel rhan o'u haddysg ac y dylai AG gynnwys dysgu am greddoau di-grefydd.

Nid oedd llawer o gefnogaeth i'r awgrymiadau i newid enw Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd. Achosodd y term 'moeseg' benbleth i nifer o gyfranogwyr yn yr ymgynghoriad. Pleidleisiodd mwyafrif (59 %) y cyfranogwyr yn yr ymgynghoriad dros awgrymiadau ynghylch beth yw enw AG yn y cwricwlwm newydd. Cynigiwyd dros 50 o awgrymiadau newydd gan y cyfranogwyr, ac roedd y mwyafrif yn ffafrio parhau i ddefnyddio'r term 'Crefydd' a chynnwys diwylliant byd-eang, cyfeillgarwch, sgiliau cymdeithasol.

Er mwyn helpu gyda'r newidiadau hyn, awgrymwyd y dylai rhieni gael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gyfrwng sianeli amlgyfrwng fel cyfryngau cymdeithasol, e-bost, llythyrau, taflenni, teledu a fideos. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i drafod wyneb yn wyneb a chynnwys rhieni a phlant wrth wneud penderfyniadau. Ystyrid hyfforddiant i athrawon hefyd yn rhywbeth a allai helpu gwneud y newidiadau hyn i weithio, yn ogystal â helpu dysgwyr yn yr ysgol.

Argymhellion

- » Sicrhau bod cyfathrebu clir gyda rhieni mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys e-bost, gwefannau, sgysiau wyneb yn wyneb a phosteri. Mae'n bwysig bod y cyfathrebu hwn yn cael ei gyflwyno'n glir mewn ffordd sy'n cael ei deall gan bob oed a gallu a'i fod yn dangos yn glir bod y maes dysgu hwn yn ymwneud â deall crefyddau, diwylliannau a chredoau eraill.
- » Mae enw newydd AG yn adlewyrchu bod y maes dysgu hwn yn ymwneud â deall eraill gan gynnwys sgiliau cymdeithasol, cyfeillgarwch a diwylliannau byd-eang yn ogystal â chrefydd.

3 Crynodeb

3.3 Ni ddylai rhieni plant blwyddyn 8 a hŷn allu stopio eu plant rhag cael gwersi AG neu ACRh o fis Medi 2022

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn yr ymgynghoriad yn teimlo y dylai'r newidiadau hyn fod yn berthnasol i ddysgwyr ym mlwyddyn 8 a hŷn o fis Medi 2022 yn ogystal â'r rheiny ym mlwyddyn 7 gan bod angen dull cyson ym mhob oedran. Hefyd, gwnaed sylwadau na ddylai rhieni allu tynnu eu plant allan o'r gwersi hyn ac mai'r dysgwr ddylai ddewis. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau am ba mor briodol oedd gwneud y gwersi hyn yn orfodol i blant iau.

Argymhellion

- » Sicrhau bod y dysgu'n addas i'r oedran a bod cyfathrebu clir ynghylch beth fydd cynnwys y gwersi hyn i blant iau

3.4 Yr effaith ar y Gymraeg

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo na fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu drin y Gymraeg yn gydradd i'r Saesneg. Teimlid y gallai'r newidiadau hyn ehangu defnydd o'r Gymraeg drwy gyflwyno geirfa newydd, cyhyd â bod yr adnoddau cywir yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Roedd y rheiny mewn ysgolion Cymraeg yn cytuno â hyn gan eu bod nhw'n teimlo y bydden nhw'n parhau i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr un modd. Fodd bynnag, dywedodd un cyfranogwr fod angen buddsoddi mewn adnoddau dwyieithog nad ydynt ar gael ar gyfer astudiaethau TGAU AG ar hyn o bryd.

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo y gallai newidiadau gael eu gwneud i'r cynllun er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i siarad Cymraeg ac i drin y Gymraeg yr un fath â'r Saesneg. Eto, roedd hyn yn ymwneud ag argaeledd adnoddau Cymraeg ACRh ac AG. Hefyd, dywedodd rhai cyfranogwyr fod angen mwy o addysg Gymraeg.

Argymhellion

- » Sicrhau bod adnoddau ar gyfer AG ac ACRh ar gael yn Gymraeg

4.1 Holiadur Ar-lein

Roedd yr holiadur ar-lein yn gofyn cwestiynau ynghylch y canlynol;

- » Yr effaith ar ddysgwyr/rhieni/gofalwyr ac ysgolion petâi'n rhaid i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) ac Addysg Grefyddol (AG) yn y cwricwlwm newydd.
- » Pa wybodaeth, help a chefnogaeth fyddai eu hangen er mwyn gwneud i'r newidiadau hyn weithio?
- » A ddylai'r rheolau newydd fod yn berthnasol i'r rheiny ym mlwyddyn 8 a hŷn o 2022?
- » A ddylid ailenwi AG a beth ddylai ei enw fod?
- » Pa effaith gaiff y newid ar y Gymraeg?
- » Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch oedran, grŵp ac a oedd yr ymateb ar ran grŵp ieuenctid, cyngor ysgol, neu senedd ieuenctid?



4.2 Grwpiau ffocws

Defnyddiwyd cwestiynau o'r holiadur ar-lein fel gwaelodlin o gwestiynau ar gyfer y grwpiau ffocws. Cafodd pob grŵp ffocws ei dywys drwy gyfres o ymarferion cyfranogol er mwyn clywed eu barn ar sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn.

Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr lenwi holiadur syml wrth iddyn nhw gyrraedd y grŵp ffocws er mwyn cael trosolwg o'r rheiny oedd yn cymryd rhan. Roedd hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth ar safonau cyfranogiad i'r cyfranogwyr. Gofynnwyd iddyn nhw;

- » **Beth yw eich rhywedd?**
- » **A oes gennych chi grefydd/ffydd/grŵp ffydd? Oes/Nag oes/Byddai'n well gen i beidio ag ateb**
- » **Os oes, nodwch eich crefydd/ffydd os gwelwch yn dda**

Cyflwynwyd pob pwnc mewn iaith oedd yn hawdd i'w deall a gofynnwyd cwestiynau gan ddefnyddio dulliau hwyl a rhyngweithiol. Defnyddiwyd gweithgaredd cychwynnol hwyl er mwyn gwneud i'r cyfranogwyr feddwl am y meysydd pwnc cyn edrych ar yr un cwestiynau fel roedden nhw'n cael eu gofyn yn yr holiadur ar-lein.

Rhannwyd pob sesiwn grŵp ffocws i dair adran;

- » **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

1. a) Beth yw'r tri pheth cyntaf sy'n dod i'ch meddwl wrth glywed 'ACRh'?
b) 3 pheth rydych chi wedi dysgu amdanyn nhw mewn gwersi ACRh?
2. Pa effaith fyddai ar ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd?
3. Pa wybodaeth, help a chefnogaeth fyddai eu hangen er mwyn gwneud i'r rheolau newydd hyn weithio?

» Addysg Grefyddol

1. a) Beth yw'r tri pheth cyntaf sy'n dod i'ch meddwl wrth glywed 'AG'?
b) 3 pheth rydych chi wedi dysgu amdanyn nhw mewn gwersi AG?
2. Pa effaith fyddai ar ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Grefyddol (AG) yn y cwricwlwm newydd?
3. Pa wybodaeth, help a chefnogaeth fyddai eu hangen er mwyn gwneud i'r rheolau newydd hyn weithio?
4. Beth sy'n enw da ar gyfer "Addysg Grefyddol", er mwyn dangos y newidiadau yn y ffordd newydd o addysgu (Cwricwlwm)?

» Yr effaith ar oedrannau, iaith ac unrhyw beth arall

1. Ein cynllun yw na ddylai rhieni plant blwyddyn 7 gael atal eu plant rhag cael gwersi AG neu ACRh o fis Medi 2022
 - i) A ydych chi'n meddwl y dylai'r rheol hon fod yn berthnasol i rieni plant blwyddyn 8 a hŷn o fis Medi 2022 yn ogystal â rhieni plant blwyddyn 7?
2. A fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar:
 - i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
 - ii) trin y Gymraeg yn gydradd i'r Saesneg?

A oes unrhyw newidiadau y gallwn ni eu gwneud i'r cynllun er mwyn; ;

- iii) cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
 - iv) sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un peth â'r Saesneg
3. A oes gennych chi unrhyw syniadau neu gwestiynau eraill am ACRh ac AG yr hoffech eu hychwanegu??

5 Cyfranogwyr

Cynhaliodd Dynamix 20 grŵp ffocws gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru o 8 – 28 Tachwedd 2019 mewn deg ysgol gynradd, wyth ysgol uwchradd a gyda dau grŵp â nodweddion gwarchodedig.

Roedd y grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cynnwys grŵp LGBTQ+ a grŵp pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig oedd yn cyfarfod y tu allan i'r ysgol. Ymhlith y grwpiau ffocws ysgol roedd dwy uned arbennig gan gynnwys dau grŵp Anghenion Dysgu Ychwanegol, dau grŵp Sipsiwn, Teithwyr a Romani a grŵp â nam clyw.

Gwnaed pob ymdrech i ymgysylltu ag ymlediad eang ledled Cymru gan gynnwys cynifer o grwpiau nodweddion gwarchodedig â phosibl yn yr amser a ganiatawyd ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae'r tabl isod yn dangos ymlediad rhanbarthol y grwpiau a sawl un o'r rhain oedd yn grwpiau nodweddion gwarchodedig a sawl un o'r rhain a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Rhanbarth	Nifer o grwpiau ffocws	Grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn Gymraeg	Grwpiau nodweddion gwarchodedig
Gogledd-orllewin	1	1	
Gogledd-ddwyrain	5	1	1
Canolbarth	4	1	1
De	9	1	5
De-ddwyrain	1		

Rhoddodd cyfanswm of 279 cyfranogwr adborth drwy'r grwpiau ffocws a'r holiadur ar-lein. Llenwodd y Senedd Ieuenctid gwestiynau'r holiadur yn annibynnol drwy lenwi copïau caled o'r arolwg. Anfonodd un person ifanc lythyr yn amlinellu ei farn. Cyflwynir yr holl ymatebion ynghyd yn yr adroddiad hwn.

Cynigiwyd grwpiau ffocws i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 5 a hŷn. Mae'r tabl hwn yn dangos oedrannau'r ymatebwyr;

OEDRANNAU

10 ac iau	96
11 – 13 oed	84
14-16 oed	74
17-19 oed	22
Dim ateb	3
	279

5 Cyfranogwyr

Gofynnwyd i holl gyfranogwyr y grwpiau ffocws ateb cwestiynau am rywedd a chrefydd/ffydd. Roedd yn glir mai dewisol oedd pob cwestiwn ac y gallai'r cyfranogwyr ateb cynifer neu gyn lleied ag yr hoffon nhw. Mae'r siartiau isod yn dangos yr ymatebion a roddwyd i'r cwestiynau hyn.

Beth yw eich rhywedd?

Roedd hwn yn gwestiwn agored ac mae'r atebion wedi cael eu grwpio yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd gan y cyfranogwyr.

Benywaidd	112
Gwrywaidd	106
Trawsryweddol/Pontio/Dim rhywedd/Anneuaidd/Cwestiynu	5
Dim ateb	56
	279

Gwnaed pob ymdrech yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad i sicrhau bod y rheiny o grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cael cyfle i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws.

Cynhaliwyd y grwpiau ffocws canlynol;



Grwpiau nodweddion gwarchodedig

Grŵp anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn ysgol	2
Grŵp pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig	1
Ysgol Gatholig	1
Grŵp Sipsiwn, Teithwyr a Romani mewn ysgol	2
Grŵp LGBTQ+	1
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru	1

Siaradodd Dynamix â Chymdeithas Dyneiddwyr Cymru er mwyn sefydlu grŵp ffocws gyda phlant a phobl ifanc yn eu cymuned. Fodd bynnag, nodwyd nad yw nifer o blant a phobl ifanc teuluoedd Cymdeithas y Dyneiddwyr yn dod ynghyd fel grŵp ac yn aml nid ydynt yn galw eu hunain yn Ddyneiddwyr. Cysylltwyd â grwpiau Tystion Jehofa ond ni ellid dod o hyd i amser addas i ymweld â'r grwpiau.

Cynhaliwyd gweddill y grwpiau ffocws mewn ysgolion ledled Cymru. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i bob cyfranogwr.

Cynhaliwyd gweddill y grwpiau ffocws mewn ysgolion ledled Cymru.
Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i bob cyfranogwr.



Roedd hwn yn gwestiwn agored ac mae'r atebion wedi cael eu grwpio yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd gan y cyfranogwyr.

6 Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

6.1 Beth yw'r tri pheth cyntaf sy'n dod i'ch meddwl wrth glywed 'ACRh'?


Gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi eu hatebion i'r cwestiwn uchod ar ddalen o bapur cyn ei throï'n awyren bapur a'i thaflu at darged. Rhoddwyd 490 ateb i'r cwestiwn hwn gydag amrywiaeth o safbwyntiau sydd wedi gael eu grwpio ynghyd mewn themâu sy'n cynnwys: embaras, cydberthnasoedd, cyfeillgarwch, cydraddoldeb, rhyw, rhywioldeb a lles.

Embaras/Anghyfforddus

Dywedodd 18% o'r ymatebion fod hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo embaras neu'n anghyfforddus. Daeth bron i hanner o'r ymatebion hynny gan ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, dysgwyr mewn Ysgol Gatholig neu bobl ifanc Sipsiwn, Teithwyr neu Romani.



Daeth 12% o'r ymatebion yn y categori hwn gan ddisgyblion ysgol gynradd a 42% gan ddisgyblion ysgol uwchradd.



Cyberthnasoedd

Roedd 16 % o'r ymatebion yn meddwl am gyberthnasoedd wrth glywed am ACRh.
Roedd hyn yn cynnwys cyberthnasoedd ar-lein, priodas, cyberthnasoedd positif ac iach.

**Dysgu am fathau o
cyberthnasoedd iach a
chyperthnasoedd gwenwynig**
(Grŵp LGBTQ+)

**Cyberthnasoedd gyda phobl
o'ch cwrpas (dim teulu) (Ysgol
uwchradd)**

**Cyberthnasoedd, parchu pobl o
wahanol hiliau**
(Ysgol gynradd)

Priodi
(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru)

Cyfeillgarwch

Roedd 8 % o'r ymatebion yn meddwl am gyfeillgarwch wrth glywed am ACRh. Daeth dros hanner o'r ymatebion hyn gan ddysgwyr ysgol gynradd.

**Byddwch yn garedig wrth eich
ffrindiau, mae cyfeillgarwch yn gryf
iawn (Dysgwr ADY)**

**Dwi'n meddwl ei fod
yn ymwneud â gwneud
ffrindiau**
(Ysgol gynradd)

Sut i fod yn gyfeillgar
(Ysgol gynradd)

**Sut mae fy
ffrindiau'n
teimlo?**
(Dysgwr ADY)




6 Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

Ymatebion eraill

Yn ogystal â'r uchod.

- » Cyfeiriodd 5 % o'r ymatebion at 'Addysg' wrth feddwl am ACRh.
- » Dywedodd 10 % nad ydyn nhw'n gwybod beth ydyw, ddim eisiau gwybod, neu heb ddysgu amdano eto.




- » Dywedodd 5 % ei fod yn gwneud iddyn nhw feddwl am gydraddoldeb a pharch
- » Dywedodd 4 % ei fod yn ymwneud â rhywioldeb a rhyweddau
- » Dywedodd 6 % ei fod yn ymwneud ag atal cenhedlu, Heintiau a Drosoglwyddir drwy Ryw, rhyw neu gusanu
- » Roedd 3 % o'r ymatebion yn meddwl ei fod yn ymwneud â chrefydd

Gofalu am ein gilydd (Ysgol gynradd)

Derbyn hunaniaeth o ran rhywedd/rhywioldeb (Grŵp LGBTQ+)

Gwahanol gymunedau a chredoau yn fyd-eang (Ysgol uwchradd)

Gwahanol gydberthnasoedd (Grŵp dysgwyr ADY)



6.2 Enwch dri pheth rydych chi wedi eu dysgu mewn gwersi ACRh?

Rhoddwyd 335 ateb i'r cwestiwn hwn gydag ystod eang o ymatebion. Mae'r rhain wedi cael eu grwpio i themâu sy'n cynnwys; ein cyrff, cydberthnasoedd, rhyw diogel a pharch.

Ein cyrff

Cyfeiriodd 20 % o'r ymatebion at ddysgu am eu cyrff eu hunain mewn gwersi ACRh, a'r newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff. Roedd hyn yn cynnwys dysgu am laslencyndod, y corff dynol yn gyffredinol a'r gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched. Rhoddwyd mwyafrif yr atebion yn y categori hwn gan ddisgyblion ysgol uwchradd.

Sut mae'r corff yn gweithio
(Ysgol gynradd)

Sut mae'r corff dynol yn gweithredu
(Ysgol uwchradd)

Siarad am laslencyndod
(Ysgol uwchradd)

Cyrff merched a bechgyn yn newid
(Ysgol uwchradd)

Glaslencyndod (Grŵp LGBTQ+)

Bod yn ddiogel

Cyfeiriodd 17 % o'r ymatebion at ddysgu am fod yn ddiogel mewn gwersi ACRh. Roedd hyn yn cynnwys dysgu am atal cenhedlu, Heintiau a Drosglwyddir drwy Ryw, cyffuriau ac alcohol a bod yn ddiogel gyda phobl ddieithr.

Addysg, onid yw'n 37 oed
(Ysgol Gatholig)

Sut mae gwybod a ydych chi mewn cydberthynas iach neu un gamdriniol
(Ysgol Gatholig)

Bod yn ddiogel ar-lein
(Ysgol Gatholig)

Beth yw dulliau atal cenhedlu a beth maen nhw'n ei wneud
(Ysgol gynradd)

Heintiau a Drosglwyddir drwy Ryw
(Primary school)

Roedd holl ymatebion y categori hwn gan ddysgwyr ysgol gynradd ac ysgol Gatholig.

6 Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

Cydberthnasoedd

Cyfeiriodd 14 % o'r ymatebion at ddysgu am gydberthnasoedd mewn gwersi ACRh. Roedd hyn yn cynnwys dysgu am gyfeillgarwch, bwlio a phwysigrwydd cael ffrindiau. Roedd yr atebion hyn wedi eu rhannu'n union rhwng dysgwyr cynradd ac uwchradd

Sawl math o
gydberthynas
(Ysgol uwchradd)

Mae popeth
yn achosi bwlio
(Ysgol uwchradd)

Cyfeillgarwch a
chydberthnasoedd
(Ysgol gynradd)

Pwysigrwydd bod
yn gymdeithasol
a chael ffrindiau
(Ysgol gynradd)

Ymatebion eraill

Yn ychwanegol i'r uchod.

- » Dywedodd 10 % nad oedden nhw erioed wedi cael y gwersi hyn neu eu bod nhw'n ansicr neu'n methu cofio beth roedden nhw wedi ei wneud. Dysgwyr ysgol gynradd a phobl ifanc Sipsiwn, Teithwyr neu Romani oedd y rheiny a ddywedodd nad oedden nhw wedi cael y gwersi hyn.
- » Dywedodd 6 % eu bod wedi dysgu am barch a chydaddoldeb yn ACRh. Roedd hyn yn cynnwys parchu eich gilydd, derbyn gwahaniaethau, diwylliant, cydraddoldeb a pheidio â neilltuo pobl eraill.
- » Ymysg yr ymatebion eraill roedd dysgu am fabis a beichiogrwydd, cydsynio, rhyweddau, lles a gwyddoniaeth.

6.3 Pa effaith fyddai ar ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr ac ysgolion petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws categoreiddio eu hatebion i'r cwestiwn hwn o ran sylwadau positif, negyddol a sylwadau eraill.

- i.) Yr effaith ar ddysgwyr petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd?

Dysgwyr	% o'r sylwadau
Positif	52
Negyddol	37
Arall	10

6

Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

Roedd mwyafrif y sylwadau positif yn sôn y byddai hyn yn caniatáu i blant a phobl ifanc fod yn fwy gwybodys wrth iddyn nhw dyfu i fyny ac ar gyfer y dyfodol. Cysylltwyd hyn hefyd â chysondeb dysgu fel y byddai'r un cyfle ganddyn nhw i ddysgu am ACRh fel oedolion a byddai'r un ddealltwriaeth gan bawb.

Byddai'n golygu bod cenhedlaeth gyfan yn cael gwell addysg ar bynciau hanfodol, mae nifer ohonyn nhw'n hanfodol ar gyfer bywyd ar ôl ysgol (*Senedd Ieuencid*)

Mae'n hawdd dysgu pethau o oedran ifanc oherwydd wrth fynd yn hŷn mae rhywun yn arfer â phethau (*Arweinydd ADY*)

Gwybodaeth newydd ar gyfer cymwysterau (*Grŵp LGBTQ+*)

Bydd yn rhaid i bawb ddysgu amdano rywbryd (*Ysgol gynradd*)

Dwi'n meddwl y byddai cymryd rhan mewn gwersi ACRh yn effeithio ar bobl mewn ffordd bositif oherwydd bydd yn eu helpu nhw i ddeall y byd o'u cwrpas (*Senedd Ieuencid*)

Sgîl bywyd hanfodol (*Ysgol uwchradd*)

Yr effaith negyddol fwyaf cyffredin y soniwyd amdani gan ddysgwyr oedd teimladau o embaras neu deimlo'n anghyfforddus.

Dwi'n teimlo embaras wrth drafod iechyd ac addysg ryw (*Grŵp Sipsiwn, Teithwyr neu Romani*)

Os nad yw pobl eisiau bod yn rhan ohono efallai bydd eu presenoldeb yn gwaethygu (*Ysgol gynradd*)

Efallai bydd rhai plant yn teimlo mor anghyfforddus fel na fyddan nhw eisiau cymryd rhan (*Ysgol uwchradd*)

Efallai nad ydyn ni eisiau dysgu am y pwnc hwn (*Ysgol gynradd*)

Gallai dysgu am y pethau hyn gyda myfyrwyr eraill fod yn lletchwith (*Ysgol uwchradd*)

Dydyn ni ddim yn meddwl bod ACRh yn addas i'n plant ieuengaf – YN ENWEDIG MERCHED (*Grŵp Sipsiwn, Teithwyr neu Romani*)

Byddai'n effeithio llawer ar rai diwylliannau gan eu bod yn credu na ddylai plant eu diwylliant nhw gael ACRh – fel y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Os yw hyn yn digwydd bydd y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn tynnu eu plant allan o'r ysgol waeth beth fo'r canlyniadau. Dim ond newydd ddechrau mynychu'r ysgol uwchradd mae Sipsiwn a Theithwyr, os yw hyn yn digwydd bydd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cymryd cam mawr yn ôl. (*Senedd Ieuencid*)

6 Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

Mynegwyd pryderon y byddai addysgu ACRh i blant iau yn amhriodol ac na fyddai plant iau yn deall. Teimlid hefyd y gallai'r gwersi hyn arwain at blant iau yn cael eu bwlio neu bobl yn chwerthin arnyn nhw. Teimlid hefyd y gallai ACRh achosi penbleth i ddysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel ail iaith neu i'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Teimlid hefyd y gallai gwrthwynebiad eu rhieni tuag at ddysgu ACRh effeithio ar ddysgwyr

Efallai y bydd y dysgwyr yn dioddef effaith negyddol gan eu rhieni. Efallai bod eu rhieni a'u gofalmwr yn anfodlon ond mae'n rhaid iddyn nhw ddeall pwysigrwydd y math hwn o addysg
(*Senedd Ieuenctid*)



ii.) Yr effaith ar rieni/gwarcheidwaid/gofalmwr petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd?

Rhieni	% o'r sylwadau
Positif	43
Negyddol	43
Arall	15

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo mai effeithiau positif mwyaf y newid hwn i rieni/gwarcheidwaid/gofalmwr fyddai y bydd eu plant yn fwy gwybod wrth iddyn nhw dyfu i fyny ac ar gyfer y dyfodol ac y caiff y pwnc hwn ei drafod yn yr ysgol.

Does dim raid i rieni egluro pethau
(*Ysgol uwchradd*)

Creu sgysiau haws yn y cartref, o bosib (LGBTQ+)

Llai o bwysau ar rieni i addysgu eu plant am y pethau hyn
(*Ysgol uwchradd*)

Mae rhai rieni'n teimlo'n anghyfforddus bod eu plant yn cael gwybod am rai pethau, ond os yw'n addas i'r oedran/cefndir, does dim angen poeni. Ni fydd y gwersi hyn yn annog ffyrdd LGBTQ+ o fyw, dim ond yn eu cydnabod nhw gan eu bod yn aelodau o'n cymdeithas. Bydd yn well gwaelodlin o'r hyn mae pobl yn ei wybod ac yn eu cadw nhw'n ddiogel.
(*Senedd Ieuenctid*)

6

Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

Awgrymwyd hefyd y byddai rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr yn teimlo'n bositif am y newid hwn gan y caiff eu plant eu haddysgu am gydberthnasoedd iach a sut i fod yn ddiogel. Teimlai rhai cyfranogwyr hefyd y byddai rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr yn teimlo'n bositif am y newid hwn gan y byddai'n lleihau'r risg o fwlio ar gyfer rhai dysgwyr ac yn cynyddu parch a chydaddoldeb drwy ddealltwriaeth.

Os yw rhywioldeb eu plentyn yn wahanol i ddisgyblion eraill bydden nhw eisiau i'r disgyblion eraill ddeall
(Ysgol uwchradd)

Er mwyn trin pobl fel rydych chi eisiau cael eich trin
(Grŵp Sipsiwn, Teithwyr neu Romani)

Ni ddylai pobl gael eu gorfodi i fod o'r un farn â'u rhieni
(Ysgol uwchradd)

Roedd effeithiau negyddol ar rieni/gwarcheidwaid/gofalwyr yn ymwneud yn bennaf â'u gwrthwynebiad bod eu plant yn cael gwersi ACRh gorfodol, y bydden nhw'n teimlo fel eu bod wedi colli rheolaeth dros sut maen nhw eisiau siarad â'u plant ynglŷn ag ACRh ac y byddai rhai dysgwyr yn cael eu tynnu o'r ysgol.

Bydd rhieni'n anfodlon – ni fyddan nhw eisiau i'w plant ddysgu amdano, mae ACRh yn creu embaras
(Ysgol uwchradd)

NI FYDD rhieni'n cytuno, bydd nifer o blant yn methu'r ysgol ar y diwrnodau hynny
(Grŵp Sipsiwn, Teithwyr neu Romani)

Gallaf ddychmygu pam y byddai rhai pobl (yn teimlo embaras) gan eu bod nhw'n meddwl mai eu cyfrifoldeb nhw yw addysgu eu plant am y pethau hynny (Ysgol uwchradd)

Dysgu pethau nad yw rhieni eisiau i chi eu dysgu
(Ysgol gynradd)

Ni fyddai rhai rhieni eisiau i'w plant ddysgu pethau sy'n erbyn eu crefydd, e.e. Cristnogion a LGBTQ+ - Byddai hynny'n wael!
(Senedd Ieuenctid)

Efallai byddai rhai rhieni'n drist am y peth, efallai na fydden nhw eisiau i'w plant ddysgu am hynny
(Ysgol gynradd)

6 Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

Gwnaed sawl sylw ynghylch effeithiau negyddol rhieni yn colli'r dewis ynglŷn â gadael i'w plant fynychu'r gwersi hyn ai peidio;

Dylai rhieni gael yr hawl i ddewis sut i addysgu eu plant ar y materion hyn. Dwi'n credu y dylai'r gyfraith ddatgan y dylai plant ddysgu, mewn rhyw fodd, ond nid mewn gwersi gorfodol (*Senedd Ieuenctid*)

Byddan nhw'n meddwl 'Mae fy mab yn mynd i ddysgu am addysg ryw a does dim alla'i ei wneud' (*Ysgol gynradd*)

Byddai'n rhoi gwybodaeth amhriodol i'w hoedran i bobl ifanc, a dim pŵer dros y mater. Nid dyma werthoedd nifer fawr o deuluoedd Cymru, felly byddai gwneud hyn yn orfodol yn frad enfawr i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr. Mae teuluoedd yn haeddu'r hawl i ddewis. (*Senedd Ieuenctid*)



Teimlai eraill y byddai rhieni'n meddwl y gallai godi ofn ar eu plant ac na fyddai plant yn mynd i'r ysgol neu y byddai rhieni'n dewis addysgu eu plant gartref. Ar gyfer plant a phobl ifanc Sipsiwn, Teithwyr neu Romani byddai effaith hyn ar eu rhieni yn arwain at y plant yn methu'r ysgol. Roedd y grŵp hwn yn teimlo'n gryf y dylen nhw gael dewis mynychu'r gwersi hyn ai peidio.

iii.) Yr effaith ar ysgolion petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn y cwricwlwm newydd?

Ysgol	% o'r sylwadau
Positif	46
Negyddol	40
Arall	14

Yr effaith fwyaf positif a ystyrid ar yr ysgol oedd dysgu rhagor am bethau fydd yn effeithio ar bob dysgwr wrth iddyn nhw dyfu i fyny ac felly'n galluogi dysgwyr i fod yn fwy gwybodus.

Byddai'r ysgol yn gwybod bod y plant yn dysgu rhywbeth newydd
(Dysgwr ADY)

Byddai plant yn gwybod beth sydd o'u blaenau nhw yn y byd
(Dysgwr ADY)

Gallai profiad cyffredinol yr ysgol a gwybodaeth pobl gynyddu
(Ysgol uwchradd)

Dylai gwaith y cwricwlwm gynnwys stwff ar LHDT – gall pobl ddysgu pa mor anodd yw deall yr anawsterau
(Ysgol gynradd)

Athrawon sy'n dysgu pethau pwysig inni, nid pobl eraill (nyrsys) (Senedd Ieuencid)

Roedd creu awyrgylch mwy cyfartal, cydradd a goddefgar i ddysgwyr yn cael ei ystyried yn beth positif i'r ysgolion, a gallai gwersi ar gydberthnasoedd a chyfeillgarwch iach wneud ysgolion yn lleoedd mwy positif.

Bydd yn golygu bod llai o gyfle i bobl bechu yn erbyn ei gilydd
(Dysgwr ADY)

Mae'n debygol o fod yn bositif oherwydd bydd gennyn ni wers am gyfeillgarwch (Ysgol gynradd)

Bydd plant yn fwy agored a goddefgar (Ysgol gynradd)

Effaith bositif ar fwlio (LGBTQ+) (Ysgol gynradd)

Byddai dysgu am gydberthnasoedd a rhywioldeb yn beth da i bawb gan y byddai gan bobl fwy o barch tuag at ei gilydd (Ysgol gynradd)

Petâi gan yr ysgol ddisgyblion sy'n gwybod sut i wneud ffrindiau'n well byddai'r plant yn hapusach (Ysgol gynradd)

6 Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh


Teimlid mai'r effaith fwyaf negyddol ar ysgolion fyddai sefydlu'r awyrgylch dysgu. Roedd hyn yn cynnwys sut y byddai ysgol yn addysgu plant iau, agwedd dysgwyr ac achosi aflonyddu, dim digon o amser i addysgu ACRh a'r holl bynciau eraill, pryderon ynghylch effaith technoleg yn y gwersi hyn ac agweddau athrawon unigol.

Efallai bydd disgyblion yn dechrau gwneud pethau rhyfedd – digwyddodd hyn llynedd ar ôl sgwrs ar laslencyndod
(Dysgwr ADY)

Efallai bydd rhai plant yn dweud pethau amhriodol beth bynnag, gan eu bod yn ymchwilio i'r peth ar ddyfeisiau technoleg
(Ysgol gynradd)

Mae ein hysgol yn oddefgar iawn – efallai bod rhai athrawon yn homoffobig
(Grŵp Sipsiwn, Teithwyr neu Romani)

Os mai'r athrawon sy'n ei addysgu, bydd llawer o bwysau arnyn nhw nid yn unig i addysgu eu pwnc ond hefyd i hyfforddi mewn ACRh (Ysgol uwchradd)



Teimlid hefyd y byddai hyn yn achosi teimladau o embaras ac yn achosi'r athrawon a'r dysgwyr i deimlo'n anghyfforddus.

“

Efallai bydd athrawon yn teimlo'n lletchwith wrth addysgu'r pethau hyn
(Dysgwr ADY)

“

Efallai bydd rhaid i'r ysgol ddelio â phlant sy'n teimlo'n anghyfforddus
(Ysgol yr Eglwys yng Nghymru)

Efallai bydd gorfod delio â chwynion gan rieni, protestiadau neu gael eu herlid yn effeithio ar ysgolion.



Byddai rhieni'n cwyno wrth yr ysgol
(Ysgol gynradd)



Gallai'r ysgol dderbyn cwynion, gan nad nhw wnaeth y penderfyniad
(Grŵp LGBTQ+)



Efallai y caiff yr ysgol ei herlid
(Dysgwr ADY)

Mynegwyd pryderon eraill ynghylch rhieni'n tynnu eu plant allan o'r ysgol, a fyddai'n effeithio ar bresenoldeb a nifer y disgyblion yn yr ysgol. Roedd pwyslais hefyd ar effaith bosibl y gost a'r hyfforddiant ar yr ysgolion.

6.4 Pa wybodaeth, help a chefnogaeth fydd eu hangen er mwyn gwneud i'r rheolau newydd hyn weithio?

Roedd ymatebion i'r cwestiynau hyn yn ymwneud yn bennaf â rhoi gwybodaeth i rieni a sut i rannu gwybodaeth â nhw;



Tawelu meddwl rhieni drwy ddweud wrthyn nhw pa feysydd ACRh bydd plant yn eu dysgu



Llythyr neu e-bost sy'n mynd adref ar ddechrau'r flwyddyn sy'n egluro beth fydd eu plentyn yn ei ddysgu



Gwefan sy'n sôn am y newidiadau



Yr un peth ag o'r blaen, hysbysu rhieni ynghylch beth sy'n digwydd gyda braslun o'r cwricwlwm, gadael i rieni leisio barn ynghylch yr hyn sy'n cael ei ddysgu



Llywodraeth Cymru yn dod i'r ysgolion i siarad â rhieni

Awgrymwyd y dylid cyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys drwy lythyr, e-bost, neges destun, cylchlythyron ac ymgyrch teledu;

6 Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

- » Neges destun sy'n rhoi manylion am bwnc y dydd, sy'n benodol i ACRh
- » Cylchlythyron sy'n egluro pethau wrth rieni
- » Anfon llythyr adref at rieni sy'n egluro beth fydd plant yn ei ddysgu fel y bydd llai o wrthwynebiad
- » Ymgyrch teledu

Byddai cynnig cyfleoedd i rieni gael gweithdai a chyfarfodydd wyneb yn wyneb hefyd yn helpu gwneud i'r rheolau newydd hyn weithio;

- » Dylen nhw gael cyfarfodydd rhieni ac athrawon
- » Siarad â rhieni, rhoi cyfle iddyn nhw ofyn cwestiynau am y cwricwlwm newydd, siarad â rhieni am hawliau
- » Trefnu sgysiau gyda rhieni – bydden nhw'n teimlo'n well am y peth
- » Grwpiau ffocws mewn ysgolion – cyfarfod mawr, bwyd, diod, grwpiau ieuenctid, rhyngweithio gydag ysgolion eraill
- » Siarad â phawb a'u gwahodd i weld yr hyn fydd yn cael ei addysgu
- » Gweithdai ar gyfer rhieni, nosweithiau coffi

Awgrymwyd y gallai rhieni a phlant fod yn rhan o wneud i'r newidiadau hyn weithio;

- » Gofyn i rieni am awgrymiadau
- » Gofyn pa rannau o addysg ryw mae rhieni'n gyfforddus â nhw
- » Staff yn dweud wrth y plant a'r plant yn siarad â'u rhieni
- » Gallen ni hefyd gynnal sgysiau mewn lleoliadau pwysig

6 Dadansoddiad o'r canlyniadau: ACRh

Teimlid y dylid teilwra cynnwys y gwersi i weddu i anghenion a galluoedd penodol;

- » Gwnewch y gwersi'n addas ar gyfer pob crefydd neu gred
- » Sicrhewch fod pobl ag Anghenion Addysgol Arbennig yn cael gwybodaeth hygyrch, eglur
- » Penderfynwch pa oedrannau y dylid eu haddysgu
- » Cofiwch deilwra gwersi ar gyfer gwahanol fyfyrwyr

Er mwyn helpu cefnogi'r newidiadau hyn awgrymwyd y dylid eu cyflwyno mewn camau a bod athrawon yn cael yr hyfforddiant cywir i allu addysgu ACRh yn iawn. Mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon ynghylch y newidiadau;

- » Efallai na fydd plant eisiau mynd i'r ysgol
- » Efallai na fydd plant eisiau dysgu amdano
- » Ai rhieni ddylai addysgu hyn?
- » Oes rhaid newid y cwricwlwm?



7 Dadansoddiad o'r canlyniadau: AG

7.1 Beth yw'r tri pheth cyntaf sy'n dod i'ch meddwl wrth glywed 'AG'?

Rhoddodd y grwpiau ffocws 545 ateb i'r cwestiwn hwn sydd wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd mewn themâu sy'n cynnwys; gwahanol grefyddau, gwyliau crefyddol, addysg a diddorol/ddim yn ddiddorol.

Gwahanol grefyddau

Roedd dros 30 % o'r ymatebion yn cyfeirio at wahanol grefyddau gyda mwyafrif y cyfeiriadau'n ymwneud â Christnogaeth ac arferion Cristnogol gan gynnwys darllen y Beibl.



Ymysg yr ymatebion cafwyd cyfeiriad hefyd at Iddewiaeth, Islam, Hindŵaeth a Seientoleg.

Rydych chi'n dysgu am wahanol grefyddau a gwahanol fathau o dduwiau (Ysgol uwchradd)

Addysg

Cyfeiriodd 12 % o'r ymatebion at addysg wrth glywed 'AG'. Roedd hyn yn cynnwys addysg crefyddol, ysgol a'r Ysgol Sul.



Diddorol/ddim yn ddiddorol

Dywedodd 3 % o'r dysgwyr fod diddordeb ganddyn nhw mewn AG

Mae'n dda am fy helpu i ddeall
(Ysgol gynradd)

Dydw i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl ond dwi'n gwybod y bydd yn dda
(Dysgwyr ADY)

Am braf, pwnc dwi'n dda ynddo
(Ysgol gynradd)

Ar y llaw arall, hefyd dywedodd 3 % nad oedd diddordeb o gwbl ganddyn nhw, pob un yn mynychu Ysgol Gatholig.

Ymatebion eraill

Yn ychwanegol i'r uchod dywedodd dysgwyr hefyd eu bod nhw'n meddwl am wahanol straeon crefyddol, athrawon penodol, hanes a symbolau crefyddol wrth ystyried AG.

7.2 Enwch dri pheth rydych chi wedi eu dysgu mewn gwersi AG?

Cafwyd 411 ymateb i'r cwestiwn hwn gan y grwpiau ffocws. Mae'r rhain wedi cael eu rhoi mewn themâu isod.

Gwahanol Grefyddau

Cyfeiriodd dros 50 % o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn at ddysgu am wahanol grefyddau. O'r ymatebion hyn roedd 49 % o'r hyn roedd dysgwyr wedi ei ddysgu am grefyddau yn AG yn cyfeirio at Gristnogaeth. Mae'n werth nodi bod bron i hanner o'r ymatebion hyn wedi dod gan ddysgwyr mewn ysgolion ffydd.

Iesu a sut y bu farw i achub y berthynas rhwng Duw a dyn
(Ysgol uwchradd)

Cariad digyfnewid Duw
(Ysgol Gatholig)


Duw, Iesu, Bethlehem, y dechrau, Mair, Joseff
(Ysgol gynradd)

CC = Cyn Crist ac OC = Oed Crist
(Ysgol gynradd)

Stori Iesu a gwyliâu crefyddol
(Ysgol gynradd)

7 Dadansoddiad o'r canlyniadau: AG


Ymhlith y cyfeiriadau at grefyddau a chredoau eraill roedd Iddewiaeth, Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam ac Anffyddwyr.



Arferion, Hanes a Phobl

Cyfeiriodd 20 % o'r ymatebwyr at ddysgu am arferion, hanes a phobl, roedd hyn yn cynnwys cariad, dealltwriaeth, maddeuant, digwyddiadau ac arweinwyr hanesyddol.

Roedd AG wedi addysgu cyfranogwyr ynghylch pam fod pobl yn gwisgo gwahanol ddillad, Diwali, Eid, Cristingl a phererindodau. Roedden nhw wedi dysgu am bobl enwog fel Martin Luther King Jr, Malala a Richard Dawkins. Cyfeiriwyd hefyd at ddeall eraill gan gynnwys dysgu am dlodi, cyfiawnder, cyfeillgarwch, teimladau a moesau. Yn AG roedden nhw hefyd wedi dysgu am hanes gan gynnwys yr 2il Ryfel Byd a'r holocost, y Tuduriaid a'r Celtiaid a'u hanes eu hunain gyda choed teulu.



Crefydd a chredoau

Dyweddodd 14 % eu bod nhw wedi dysgu am grefydd a chredoau yn AG. Roedd hyn yn cynnwys dysgu am wyliau crefyddol, symbolau, gweddïau, llyfrau, straeon a chredoau.



Ymatebion Eraill

Yn ychwanegol i'r uchod. Dywedodd dysgwyr eu bod wedi dysgu am gyfreithiau, hiliaeth, gwahanol ddiwylliannau a dywedodd eraill nad oedden nhw'n gwybod neu ddim yn cofio beth roedden nhw wedi ei ddysgu.

7.3 Pa effaith fyddai ar ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr ac ysgolion petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Grefyddol (AG) yn y cwricwlwm newydd?

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws i gategoreiddio eu hatebion i'r cwestiwn hwn fel positif, negyddol a sylwadau eraill.

- i.) i.) Yr effaith ar ddysgwyr petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Grefyddol (AG) yn y cwricwlwm newydd?

Dysgwyr	% o'r sylwadau
Positif	58
Negyddol	32
Arall	11

Nodwyd mai'r effaith fwyaf positif ar ddysgwyr fyddai y bydden nhw'n fwy gwybodus ac yn fwy goddefgar.

Dwi'n hoffi gwybod
am bobl a chefnidroedd
gwahanol
(Dysgwr ADY)

Os ydyn ni'n cael dysgu
am grefydd pawb gallwn
ni eu parchu nhw a dathlu
gwahanol ffyddoedd
(Grŵp Sipsiwn, Teithwyr
neu Romani)

Rydych chi'n cael addysg
fwy cyflawn a gwell
golwg o'r byd
(Ysgol uwchradd)

Deall y gwahanol
ddathliadau o gwmpas y
byd (Ysgol gynradd)

Bydd yn eich helpu i ddeall
ac adnabod pobl o wahanol
grefyddau – byddan nhw'n
dysgu'r eirfa gywir i'w
defnyddio wrth siarad â phobl
(Ysgol uwchradd)

Mae'n dda bod plant
yn cael cyfle i ddysgu
am wahanol grefyddau
oherwydd dylai greu
gwell dinasyddion
sy'n fwy gwybodus a
pharchus
(Senedd Ieuenctid)

Mae'n bwysig deall a
pharchu pob crefydd a
hil. Mae AG yn hanfodol
er mwyn ein helpu ni i
ddeall credoau a'r byd
ehangach a gall roi
meddwl mwy eang i bobl
ifanc ynglŷn â chrefydd a
phobl.
(Senedd Ieuenctid)

Cipolwg da ar
fywydau pobl eraill
(Grŵp Sipsiwn,
Teithwyr neu Romani)

Fel nad ydych chi'n
gwahaniaethu yn erbyn
ffyddoedd eraill
(Ysgol uwchradd)



Teimlid bod mwyafrif yr effeithiau negyddol ar ddysgwyr yn gysylltiedig â gwrthwynebiad dysgwyr yn erbyn gorfod cymryd rhan mewn gwersi AG.

Dydw i ddim yn gweld y pwynt, efallai na fydd yn helpu â bywyd bob dydd
(Ysgol uwchradd)

Efallai y bydd yn gorfodi pobl i ddysgu pethau nad ydyn nhw'n eu hystyried yn bwysig
(Ysgol uwchradd)

Os nad ydyn nhw'n awyddus i ddysgu am y pwnc hwn efallai y byddan nhw'n tarfu ar wersi
(Ysgol gynradd)

Gallai godi embaras os nad yw eich ffrindiau yn dilyn eich crefydd chi
(Ysgol gynradd)

Os ydyn nhw wedi cael eu hanfon i ysgol ffydd ond ddim yn credu yn y grefydd honno, gallai hynny effeithio'n wael arnyn nhw
(Ysgol uwchradd)

Byddai'n eu tramgwyddo nhw, gallai ypsetio, gallai achosi sgysiau anghyfforddus
(Senedd Ieuenctid)

Efallai na fyddan nhw'n cytuno â'r addysgu
(Grŵp LGBTQ+)

Efallai bydd terfysg, efallai na fydd anffyddwyr eisiau dysgu amdano
(Ysgol uwchradd)



Gwnaed nifer o sylwadau am yr effaith ar ryddid dysgwr i ddewis a gwneud penderfyniadau.

“

Nid pawb sy'n grefyddol,
dylai fod yn ddewis – ni
fydd eu gorfodi yn eu
helpu i basio

(Senedd Ieuenctid)

“

Does dim RHYDDID
gennych chi!!!

(Ysgol gynradd)

Nodwyd hefyd y gallai hyn effeithio ar ddysgwyr drwy achosi bwllo a hiliaeth drwy drafod crefyddau.

ii.) Yr effaith ar rieni/gwarcheidwaid/gofalwyr petái'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Grefyddol (AG) yn y cwricwlwm newydd?

Rhieni	% o'r sylwadau
Positif	27
Negyddol	54
Arall	11

Roedd yr effeithiau positif ar rieni/gwarcheidwaid/gofalwyr a nodwyd yn canolbwyntio ar fod yn fwy gwybodus a goddefgar o bob crefydd.

Bydd eu plant yn deall mwy am bobl
eraill sy'n credu mewn pethau eraill

(Ysgol uwchradd)

Dwi'n meddwl bydd y rhieni'n hapus
i wybod bod eu plant yn dysgu
parchu gwahanol grefyddau

(Grŵp Sipsiwn, Teithwyr neu Romani)

Gallai rhieni ddysgu
am grefyddau eraill
gan eu plant

(Ysgol gynradd)

Gwell dealltwriaeth
o eraill a'u credoau

(Dysgwr ADY)

Gallai'r plant gael gwell
bywyd cymdeithasol
gyda phobl o wledydd
eraill (Ysgol gynradd)

Roedd safbwyntiau eraill yn ymwneud â rhieni'n cefnogi'r newid;

Efallai bydd rhieni'n hapus bod eu plant yn dysgu am wahanol ddiwylliannau – fel nad ydyn nhw'n meddwl bod pobl eraill yn rhyfedd
(Ysgol uwchradd)

Bydd y plant yn fwy parchus ac yn glyfrach o ddysgu pethau newydd - bydd rhieni'n hapus
(Ysgol Gatholig)

Hapus ein bod ni'n dysgu am bobl eraill a'u safbwyntiau
(Dysgwr ADY)

Yr effeithiau negyddol pennaf a nodwyd oedd rhai ynglŷn â gwrthwynebiadau posibl rhieni i'r newidiadau arfaethedig;

Efallai na fyddan nhw eisiau i'w plentyn ddysgu am grefyddau oherwydd eu bod nhw'n dilyn crefydd yn llym ac yn tynnu eu plentyn allan (Ysgol uwchradd)

Efallai na fydd rhai rhieni eisiau i'w plant wybod am grefyddau pobl eraill
(Ysgol uwchradd)

Efallai bod crefydd arall gan bobl ac y gallen nhw deimlo'n ddig os ydyn nhw'n dysgu am grefydd wahanol
(Ysgol Gatholig)

Efallai eu bod nhw'n poeni nad ydych chi'n barod i ddysgu am rai pethau
(Ysgol gynradd)

Efallai bod rhieni'n anffyddwyr a ddim eisiau i'w plant fynychu gwersi AG
(Ysgol uwchradd)

Byddai dysgu am wahanol grefyddau'n dda i les y plentyn. Gallai fod yn wael i rai rhieni neu blant pe na bônt yn credu yn rhai o'r pethau maen nhw'n cael eu haddysgu. Gallai'r rhieni deimlo'n ddirym yn addysg eu plant.
(Senedd Ieuenctid)

Ddim yn gadael i'w plant fynd i'r ysgol (Ysgol uwchradd)

Poeni y gallai plentyn newid ei grefydd, gallai achosi dadlau mewn teuluoedd
(Ysgol gynradd)

7 Dadansoddiad o'r canlyniadau: AG

Ymysg yr effeithiau negyddol eraill ar rieni a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad roedd materion ynghylch bwlio, embaras a diffyg gwybodaeth am yr hyn fydd yn cael ei addysgu;

Efallai bod rhieni ac eraill yn hiliol os nad ydyn nhw eisiau i'w plant gymryd rhan
(Ysgol uwchradd)

Os mai dim ond chi sydd â chrefydd yn y dosbarth gallai pobl bigo arnoch chi
(Ysgol gynradd)

Gallai rhai rhieni deimlo ofn y bydd eu plant yn dysgu am hyn
(Ysgol gynradd)

iii.) Yr effaith ar ysgolion petâi'n RHAID i bob dysgwr gymryd rhan mewn gwersi Addysg Grefyddol (AG) yn y cwricwlwm newydd?

Ysgol	% o'r sylwadau
Positif	48
Negyddol	44
Arall	9

Teimlid bod mwyafrif yr effeithiau positif ar ysgolion yn ymwneud ag ysgolion yn bod yn fwy gwybodus a goddefgar;

Gwell awyrgylch oherwydd bydd pobl yn deall mwy (Ysgol uwchradd)

Bydd yr ysgol yn lle ble mae pobl yn deall teimladau ei gilydd yn well
(Ysgol uwchradd)

Canolfan ddysgu yw ysgol
(Grŵp Sipsiwn, Teithwyr neu Romani)

Bydd athrawon yn dod i adnabod crefyddau eu myfyrwyr (Ysgol gynradd)

Gwell dealltwriaeth o gredoau a chrefyddau pobl, bydd hyn yn arwain at well dealltwriaeth o'r byd ehangach, profiadau o ddiwylliannau a gwledydd eraill a.y.y.b., helpu lleihau bwlio
(Ysgol gynradd)

Bydd plant yn gallu rhannu safbwyntiau a chael eu gwerthfawrogi a bod yn oddefgar
(Ysgol uwchradd)

Awyrgylch mwy cynhwysol yn yr ysgol
(Senedd Ieuenctid)

Byddai llai o fwlio mewn ysgolion, byddai pobl yn gwybod mwy amdano
(Ysgol uwchradd)

Dywedodd y cyfranogwyr y gallai'r newid hwn effeithio'n negyddol ar athrawon a dosbarthiadau;

Mae'n rhaid i'r athrawon ddysgu rhagor o bethau (*Ysgol gynradd*)

Efallai na fydd athrawon eisiau ei addysgu i'r plant (*Ysgol gynradd*)

Gallai'r athrawon gael trafferth os yw'n bwnc/crefydd hollol newydd (*Ysgol Gatholig*)

Mae angen gwario arian ar athrawon i addysgu'r pwnc (*Ysgol uwchradd*)

Roedd cyfranogwyr yn teimlo y gallai ysgolion hefyd wynebu gwrthwynebiad i'r cynnig hwn gan rieni

Gallai rhieni anghytuno a dod i'r ysgol i gwyno (*Ysgol gynradd*)


Gallai rhieni feio'r ysgol am arwain y plentyn i lawr llwybr crefyddol gwahanol (*Ysgol uwchradd*)

Rhieni â'r syniad anghywir ynglŷn â hyn ac yn meddwl y gallai plant ddechrau dilyn crefydd arall (*Grŵp LGBTQ+*)

Yr ymateb negyddol - rhieni yn picedu yn yr ysgol (*Grŵp LGBTQ+*)

7 Dadansoddiad o'r canlyniadau: AG

Teimlid hefyd y byddai rhai dysgwyr yn diflasu ac y gallai hyn effeithio ar ymddygiad mewn ysgolion ac mewn rhai achosion arwain at fwlio oherwydd cred.



7.4 Pa wybodaeth, help a chefnogaeth fydd eu hangen er mwyn gwneud i'r rheolau newydd hyn weithio?

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud yn bennaf â darparu gwybodaeth i rieni drwy sianeli amlgyfrwng fel cyfryngau cymdeithasol, e-bost, llythyrau, taflenni, teledu a fideos.

- » Mae angen i'r ysgol anfon llythyr ynghylch beth fyddai wir yn digwydd, yn lle ein bod ni'n clywed sïon
- » Postiwch yr wybodaeth ar Twitter neu ar dudalen Facebook yr ysgol - mae Facebook gan bob rhiant
- » Help a chefnogaeth i rieni i'w helpu nhw ddeall na fydd yn niweidio eu plentyn
- » Gwneud hysbyseb
- » Fideos er mwyn perswadio – dweud pam
- » Taflenni cryno ar y pwnc

Gellid hefyd darparu cefnogaeth i wneud y newidiadau hyn drwy hyfforddi athrawon.

- » Byddai angen rhagor o hyfforddiant ac adnoddau, gall athrawon fynd ar gyrsiau er mwyn dysgu am grefyddau newydd
- » Sicrhewch fod athrawon yn ymwybodol o grefydd y plant ac yn barod i ateb cwestiynau anodd
- » Cwricwlwm AG cyson ledled y wlad a phhecyn gwybodaeth/adnoddau, CANLLAWIAU ACRh nid gwersi gorfodol
- » Hyfforddiant i athrawon – Pynciau sensitif, sut i'w haddysgu nhw mewn ffordd sy'n empathetig ac yn agored i grefyddau eraill.

Ystyrid trafodaethau wyneb yn wyneb â rhieni hefyd yn ffordd o helpu gwneud y newidiadau hyn.

- » Ymwelydd gwahanol bob dydd o wahanol grefydd
- » Sesiwn blasu ar gyfer rhieni, sgwrs addysgiadol
- » Grŵp ffocws ar gyfer rhieni, gyda phlant a rhieni
- » Byddai angen gwahodd arbenigwyr (dwyieithog) o sefydliadau penodol i ddod i'r ysgol a chynnig gweithgareddau hwyl.

Cynigiwyd trafodaethau gyda rhieni drwy'r ysgol a gan ddysgwyr hefyd.

- » Gallai rhieni ac athrawon adolygu'r gwersi a gosod meini prawf fel eu bod nhw'n addas
- » Dywedwch wrthyn nhw beth sy'n cael ei ddysgu, gadewch i rieni gyfrannu syniadau ynghylch beth sy'n cael ei ddysgu
- » Gofynnwch am farn rhieni
- » Disgyblion i leisio barn
- » Gallai plant ofyn i rieni ddysgu pethau

7 Dadansoddiad o'r canlyniadau: AG

- » Gofynnwch i bobl o wahanol gefndiroedd crefyddol ddod i sgwrsio â phlant a rhieni mewn ysgolion (cysylltu ag arweinwyr yn y gymuned)
- » Cyfarfod – gyda'r bobl sydd eisiau eithrio eu plant – un cyfarfod yn unig, dim ar gyfer gwahanol ryweddau
- » Byddai'n rhaid trosglwyddo gwybodaeth yn glir iawn i rieni er mwyn dangos pwysigrwydd a pherthnasedd y gwersi hyn er mwyn eu perswadio ynghylch pa mor hanfodol ydyn nhw. Efallai y bydd angen trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb hefyd er mwyn egluro os oes angen.
- » Trafodwch mewn cyfarfodydd CRhA
- » Noson rieni o ryw fath er mwyn dweud wrthyn nhw beth gaiff ei ddysgu


Teimlid hefyd y dylid rhoi cefnogaeth i ddysgwyr

- » Grwpiau cymorth, siarad â'r rheiny sydd wedi ypsetio gyda'r broblem
- » Cefnogaeth i unrhyw un o unrhyw gefndir er mwyn sicrhau bod addysg yn deg ac yn gyson
- » Peidiwch â gwneud i unrhyw un deimlo y dylen nhw ddilyn crefydd benodol yn AG
- » Eglurwch yn iawn wrth y myfyrwyr yn gyntaf
- » Triwch roi cymorth i blant i ddysgu pethau

Nid oedd rhai o'r cyfranogwyr yn cefnogi'r newid hwn a dywedon nhw;

- » Yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud i hyn weithio yw parchu barn pawb ac os ydych chi'n trafod mwy ar wahanol gymunedau cewch weld faint fydd hyn yn effeithio arnyn nhw. Nid yw gorfodi pawb i gymryd rhan ynddo yn mynd i weithio
- » Protestiwch y newid er mwyn i'r llywodraeth wrando

7.5 Beth sy'n enw da ar gyfer "Addysg Grefyddol", er mwyn dangos y newidiadau yn y ffordd newydd o addysgu (Cwricwlwm)?



Mae'r siart uchod yn dangos y pleidleisiau a fwrwyd yn y grwpiau ffocws a'r holiadur ar-lein.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi rheswm dros eu penderfyniad.

Dim Newid

- » Mae'n iawn fel y mae.
- » Mae'n creu llai o benbleth
- » Rydyn ni wedi cael ein magu gyda hyn, pam ei newid? – Crefydd yw crefydd. Mae'n iawn fel y mae – mae'n enw da – dydw i ddim yn meddwl bod hyn yn broblem/yn effeithio ar nifer o bobl

Crefydd a Safbwyntiau Byd-eang

- » Oherwydd mae moeseg yn anodd i'w deall
- » Dywedwch wrth bobl am safbwyntiau byd-eang, nid dim ond un farn
- » Rhy hir
- » Ystyriwch nifer o wahanol fathau o safbwyntiau, nid dim ond crefyddau. Gall pobl feddwl amdano fel ffordd o ddysgu am bethau o bob cwr o'r byd a thraddodiadau byd-eang – Os ydych chi'n hyddysg mewn crefyddau a moeseg/safbwyntiau byd-eang – dwi'n credu bod safbwyntiau byd-eang yn ehangu'r pwnc a'r syniad a byddai hyn yn helpu gwneud agweddau modern yn haws – Mae'n rhoi dealltwriaeth fwy eang o grefyddau'r byd

Crefyddau, Gwerthoedd a Moeseg

- » Beth mae hyn yn ei olygu?
- » Swnio'n dda!
- » Rhy hir
- » Mae addysg grefyddol yn cynnwys moeseg yn barod felly dylid ei ychwanegu at y teitl. Gallai ychwanegu gwerthoedd at y pwnc wneud iddo swnio braidd yn ddiflas – oherwydd byddai mwy o foeseg mewn AG yn wych – oherwydd mae'n dangos i fyfyrwyr beth gall AG fod (Senedd Ieuenctid)


Awgrymiadau eraill

Gwnaed 51 awgrym newydd, a'r rhai mwyaf poblogaidd oedd:

Awgrym newydd	Nifer o bleidleisiau
Crefyddau Bywyd	12
Crefyddau a Hiliau	12
'Regucation' (Cymysgedd o'r ddau – swnio'n cwl - rhoi 'religion' ac 'education' gyda'i gilydd!)	10
Dathliadau crefyddol	10
Credoau ac addysg ddiwylliannol	9
Crefydd, Gwerthoedd, moeseg a safbwyntiau byd-eang	9
Crefydd a Chred	9
Safbwyntiau crefyddau	8
Moeseg a Moesoldeb	4
Dealltwriaeth ddiwylliannol	4
Dewis Crefyddol a Chyfeillgarwch	4
Crefydd a Diwylliant Byd-eang	4
Addysg Gymdeithasol Iechyd a Chrefyddol (mae'n golygu y gallwch gymdeithasu ag eraill a rhannu'r hyn rydych chi'n ei gredu)	3
Crefyddau a Chredoau	3
Y dosbarth crefyddol	3
Parchu Crefyddau	3
Crefyddau'r Byd	3

8 Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oedrannau a'r Gymraeg

8.1 A ydych chi'n meddwl y dylai'r rheol hon fod yn berthnasol i rieni plant blwyddyn 8 a hŷn o fis Medi 2022 yn ogystal â rhieni plant blwyddyn 7?



Mae'r siart uchod yn dangos canlyniadau'r bleidlais ar y cwestiwn hwn. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sylwadau ar eu dewis. Ceir detholiad o'r sylwadau isod;

Byddwn ni eisoes wedi dysgu rhai pethau newydd – pam newid? Annheg. Mae'r blynyddoedd eraill yn ei ddysgu a byddan nhw'n deall pethau nad ydyn ni

Mae'n rhaid gwybod – nid yw'n deg. Ddim yn siŵr. Os caiff pobl ifanc eu gorfodi i'w wneud byddan nhw'n ddig a ddim yn ei fwynhau.

Flwyddyn wrth flwyddyn, fel y gall pobl ddod i arfer

Dylai bod gan rieni hawl ynghylch pa sesiynau mae eu plant yn cymryd rhan ynddyn nhw

Efallai bod rheolau gwahanol gan frodyr a chwiorydd

Mae'n rhy gynnar i addysgu plant bach, dylai bod gan bawb ddewis

Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oedrannau a'r Gymraeg

Ddim yn siŵr am y newidiadau, ddim yn ei ddeall.

Byddai'n haws petái pawb yn dysgu'r un peth. Dydyn nhw ddim yn barod i'w ddysgu mewn oed ifanc.

Mae ei gyflwyno'n raddol yn ei wneud yn lletchwith ac yn annheg

Fel y bydd pawb yn cael eu haddysgu am bethau ac yn gwybod sut i ymddwyn yn y dyfodol

Gwell dealltwriaeth o wahanol ffyrdd o fyw gan fod cynifer yn y DU

Mae pobl yn haeddu cael dewis ar faterion sensitif a gellir dadlau bod blwyddyn 8 yn rhy ifanc

Oherwydd mae AG ac ACRh yn tyfu a'r mwyaf mae'n tyfu y mwyaf gwybodus sydd angen i bobl fod amdano

Mae'n ddewis – Oherwydd mae gan blant hawl i ddysgu pethau sy'n angenrheidiol i'r dyfodol heb fod rhieni'n amharu

Dylen ni gael dewis mynychu gwersi ACRh ai peidio gan ei fod yn rhan o'n cymuned, dylen ni gael opsiwn

Mae'n rhaid i bobl fod yn wybodus ond dylai bod rhyddid mynegiant

Mae'n rhaid i blant ddeall diwylliannau a chrefyddau eraill a chydberthnasoedd iach



Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oedrannau a'r Gymraeg

Mae'n annheg dwyn cyfleoedd addysg oddi wrth bobl ifanc ac nid yw rhieni ac oedolion yn llwyr ddeall beth sydd ei angen ar bobl ifanc yn y dyfodol.

Mae ACRh yn bwysig IAWN ac mae angen sail ddigonol o wybodaeth ar bawb.

Dylai fod yn gydradd, teg a chyson i bawb o unrhyw oedran.

Ni ddylai fod hawl gan rieni i gyfyngu ar hawliau pobl ifanc i gael eu haddysgu mewn pynciau penodol.


Mae'n rhaid inni i gyd wisgo gwisg ysgol fel ein bod ni'n edrych yr un peth, oni ddylen ni fod yn dysgu'r un peth hefyd?

Dylai'r plant gael dewis.

Ni ddylai'r un plentyn golli allan ar addysg oherwydd penderfyniadau ei rieni.


Mae'n rhaid inni sicrhau bod addysg ddiiduedd ar gael i bob crefydd, dylai roi gwybodaeth inni a'n haddysgu am wahanol gredoau.

Os nad oes cred benodol gan blentyn dylai allu penderfynu a yw eisiau cymryd rhan yn y wers.



Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oedrannau a'r Gymraeg

8.2 A fyddai'r newidiadau yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?



Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sylwadau ar eu dewis. Ceir detholiad o'r sylwadau isod;

Gallan nhw wneud y ddau

Dylech chi annog pobl sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i ddechrau sgysiau am AG ac ACRh yn Gymraeg, hybu hyder drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyddestun cymunedol

Ni ddylai, oherwydd gellir ei wneud yn y ddwy iaith neu'n gymysg, mae gwersi Cymraeg ar wahân p'run bynnag

Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oedrannau a'r Gymraeg

Dydw i ddim yn gwybod – gallai olygu llai o wersi Cymraeg (gobeithio)

Dydwyn ni ddim yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob gwers. Byddai'n cymryd amser oddi wrth y diwylliant Cymreig a.y.y.b.

Mae fersiynau newydd o'r pynciau hynny yn rhoi cyfle i bobl ehangu eu geirfa – 'Bwdhaeth', 'trawsryweddol'

Na fyddai – ni fyddai'n effeithio llawer arnon ni oherwydd rydyn ni'n cael ein haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Gobeithio y bydd yn cynyddu'r cyfleoedd, ond dydw i ddim yn siŵr, bydd yn ddibynol ar yr ysgol

Dylai pobl ORFOD dysgu Cymraeg yng Nghymru

Gallai pobl ddefnyddio'r Gymraeg ai peidio yn ystod y gwers, ni fyddai'n wahanol i wersi eraill o ran iaith

Na fyddai, oherwydd bydd yn parhau i gael ei addysgu mewn ysgolion Cymraeg


Dwi'n ansicr ynghylch sut y byddai newidiadau yn y pynciau hyn yn effeithio ar ddefnydd o'r Gymraeg, byddai'n ddefnyddiol pa baem yn dysgu mwy o hanes crefyddol Cymru

Dydw i ddim yn deall cefndir a pherthnasedd y cwestiwn hwn.

Dydw i ddim yn meddwl y byddai addasu gwersi addysg ryw yn cael llawer o effaith ar gyfleoedd i bobl siarad Cymraeg.

Dydw i ddim yn gweld sut y byddai. Petái pob gwersi yn cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg byddai'n hysbyseb dda i ddefnyddio'r iaith yn amlach mewn gwersi.

8.3 A fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar drin y Gymraeg yn gydradd i'r Saesneg?



Mae angen dysgu'r ddwy yn gydradd.

Ni fydd yn cael unrhyw effaith

Efallai bydd egluro rhai testunau'n anoddach yn Gymraeg - mae'n dibynnu pa iaith y cawsoch chi eich magu i'w siarad.

Efallai bydd pobl yn siarad mwy o Saesneg gan nad ydyn nhw'n gwybod y geiriau arbennig yn Gymraeg

Efallai bydd rhai ysgolion Cymraeg yn defnyddio geiriau Saesneg hefyd oherwydd efallai bod y termau Cymraeg yn anodd.

Rydyn ni eisoes yn cael llai o Gymraeg na Saesneg bob pythefnos, 4 gwers Gymraeg, 6 gwers Saesneg – dylen nhw gael eu trin yn gydradd

8 Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oedrannau a'r Gymraeg

Mae'r Gymraeg yr un mor bwysig â'r Saesneg, mae angen normaleiddio addysg ddwyieithog

Byddai'n rhaid creu adnoddau Cymraeg a Saesneg newydd, byddai'n rhaid blaenoriaethu un, nid ydynt yn cael eu trin yn gydradd


Mae'n dibynnu os yw'r holl adnoddau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol e.e. ar hyn o bryd nid oes adnoddau Cymraeg er mwyn astudio Hindŵaeth yn TGAU AG.

Mae'n dibynnu os yw'r cyrsiau'n cael eu cynnig yn Gymraeg



Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oedrannau a'r Gymraeg

8.4 A oes unrhyw newidiadau y gallwn ni eu gwneud i'r cynllun i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?



Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sylwadau ar eu dewis. Ceir detholiad o'r sylwadau isod;

Gwnewch y Gymraeg yn bwysicach, gwithiwrch hi – mae gormod o Saesneg a dweud y giwr

Mae'n dibynnu ar yr ysgol ac ar faint o Gymraeg sy'n cael ei haddysgu

Efallai bod manteision ond dydw i ddim yn siŵr.

Mae'n rhaid sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg – efallai?

Mae angen mwy o wersi Cymraeg / mwy o ysgolion Cymraeg

Y ffordd y caiff ei haddysgu fel ail iaith, stigma, addysgwch hi'n iawn

Dadansoddiad o'r canlyniadau: Yr effaith ar oedrannau a'r Gymraeg

Dwyieithog, ysgolion
Saesneg = Saesneg,
cyfrwng Cymraeg =
Cymraeg

Addysgwch ynghylch
pam y dylen ni fod yn
falch o hanes a diwylliant
Cymru


Cofiwch gynnwys mwy
o esiamplau Cymraeg,
geiriau Cymraeg ac
athrawiaethau crefyddol
Cymreig

Sicrhewch fod yr
adnoddau yn y ddwy
iaith yn ddigon safonol,
siaradwch am bolisiâu
sy'n benodol i Gymru
– addysgwch fwy o
athrawon i siarad
Cymraeg sylfaenol er
mwyn siarad â dysgwyr

Nid oes llawer o
Gymraeg mewn addysg
ryw ar hyn o bryd.

Os yw crefyddau eraill
yn dod i Gymru, efallai
eu bod nhw eisiau'r
Gymraeg – Efallai
bydd angen mwy o
gefnogaeth arnyn nhw –
gall athrawon o wahanol
rannau o'r byd addysgu
fel arbenigwyr

8.5 A oes unrhyw newidiadau y gallwn ni eu gwneud i'r cynllun i sicrhau bod y Gymraeg cael ei thrin yn gydradd i'r Saesneg?



A oes gennych chi unrhyw syniadau neu gwestiynau eraill am ACRh ac AG yr hoffech eu hychwanegu?

Isod ceir detholiad o sylwadau a wnaed na thrafodwyd yng nghwestiynau eraill yr ymgynghoriad;

Dylai fod yn fwy o hwyl

Ysbrydolodd fi

Mae ACRh yn syniad da iawn a gobeithio eu bod yn trafod LGBTQ a materion trawsryweddol yn y gwersi

Rhowch wybodaeth a chodwch ymwybyddiaeth am wahanol grefyddau, ffyddoedd a chredoau

Bydd pethau'n well os yw rhieni'n cael lleisio barn ynghylch yr hyn sy'n cael ei addysgu

Athrawon o wledydd eraill i addysgu gwers yn yr ysgol ar eu diwylliant a'u crefydd

Pam newid y cwricwlwm?
Beth oedd o'i le arno?

Mae angen mwy o addysg am yr hinsawdd

Dylen ni ddysgu am bobl sydd heb grefydd e.e. pobl sy'n credu yn y Fam Natur

Addysgwch am wahanol ddiwylliannau, nid dim ond crefyddau, e.e. Teithwyr

Mae angen addysg ddwys ynghylch LHDT

Sicrhewch fod AG yn ddiduedd ac yn addysgu am bob crefydd.



9

A oes gennych chi unrhyw syniadau neu gwestiynau eraill am ACRh ac AG yr hoffech eu hychwanegu?

Gallai fod yn lletchwith i blant 3 blwydd oed ddysgu am ACRh

Os yw plant yn meddwl bod dysgu am ACRh a siarad amdano'n lletchwith dylen ni roi cyfle iddyn nhw siarad ag athro er mwyn teimlo'n gyfforddus

Mae'n haws dweud wrth bobl yn yr ysgol "Dwi'n Gristion, nid Mwslim" ... fel nad ydyn nhw'n dweud pethau fel, "O, mae hynna'n afiach."

A fydd pobl ifanc yn cael cymwysterau ar ôl cwblhau'r cwrs/gwersi?

Peidiwch â dechrau pan fo'r plant yn 3 oed. Mae hynny'n rhy amhriodol. Mae 13/14 -16 lawer yn fwy effeithiol a phriodol.

Dylen nhw addysgu gwersi AG yn fwy fel athroniaeth, sy'n addysgu pobl am wahanol ffyrdd o feddwl

Beth fydddech chi'n ei addysgu yn y gwersi hyn? Pa oedran? Petâi dewis gennyn ni, byddai mwy o bobl yn hapusach.

Mwy o foeseg! Mwy o gyfleoedd i ddewis/ awgrymu'r pethau mae plant eisiau eu dysgu

Mwy o wybodaeth a chefnogaeth ynghylch materion fel tlodi mislif, diogelwch a diogelu, sicrhau bod y ddau ryw yn dysgu am y pethau hyn. Addysg ynghylch LGBTQ+

Ni ddylai ACRh fod yn orfodol, dylai rhieni gael hawl i dynnu eu plant allan, ni ddylai plant 11 ac iau gael gwersi! Mae 3 - 11 yn wirion ac yn dwyn plentyndod plentyn. Mae angen i blant ifanc chwarae, mwynhau, caru, dim dysgu ACRh!!

Mae'n bwysig gwybod am iechyd rhywiol ond byddai rhai pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad â'u rhieni yn eu cartrefi.

Pecyn gwybodaeth i bob addysgwr yn llawn adnoddau PowerPoint ac adnoddau defnyddiol eraill.

Addysg ryw gydradd a manwl. Parchu crefyddau.

Mwy o foeseg! Mwy o gyfleoedd i ddewis/ awgrymu'r pethau mae plant eisiau eu dysgu



ISBN digidol 978 1 83933 799 4
© Hawlfraint y Goron 2020
WG39803

